



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

**Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,
nos Fawrth, 21 Mawrth 2017 am 6.00yh.**

**Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room
on Tuesday, 21 March 2017 at 6.00pm.**

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (yn y gadair/in the chair),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche.**

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyng./Cllr. Akira Shimazaki

Netpool

Diweddariad. Cynhaliwyd cyfarfod ar 20 Mawrth gyda Ms Cathryn Morgan a Mr Graham Lane. Derbyniwyd sic am £1,000 oddi wrth gwmni Willmott Dixon fel cyfraniad tuag at Gronfa Lles Cymunedol; trosglwyddwyd yr arian tuag at gynorthwyo cais am grant tuag at welliannau i'r Maes Sgrialu. Ychwanegodd y Cyng. Davies bod cais ar y gweill am grant "Awards for All" (Cronfa Loteri Fawr) tan weinyddiaeth Ms Cathryn Morgan.

Coed Ymddiriedolaeth y Goedlan: Mae Grŵp Netpwl ar hyn o bryd yn trafod y datganiad diweddaraf bod rhan isaf Netpwl wedi ei gofrestru'n hanesyddol fel Man Glas Pentrefol. Caiff y coed eu cynnal a'u cadw gan y cyngor sir a byddant hefyd yn gyfrifol am eu plannu. Cynhelir digwyddiad "Awards for All" ar y Netpwl ar 3 Mehefin.

Update. A meeting was held on 20 March with Ms Cathryn Morgan and Mr Graham Lane. A cheque for £1,000 was received from Wilmott Dixon as a contribution towards the Community Benefit Fund which was transferred towards the grant application for the improvements to the Skateboard Park. Cllr Davies added that an application was currently in motion to apply for a grant from the "Awards for All" (Big Lottery Fund) which was being processed by Ms Cathryn Morgan.

Woodland Trust Trees. The Netpool Group is presently in discussion with the county council following the announcement that a section of land at the lower contour is historically registered as a Village Green. The trees will be maintained by the county council who will also be responsible for the planting of saplings. An "Awards for All" event will be held at Netpool on 3 June.

CCTV

Yn dilyn cyfarfod diweddaraf PACT, datgelwyd bod digwyddiad i gymryd lle yn Aberystwyth ar ddiwedd mis Mawrth i edrych ar gynlluniau i ddatblygu'r system yn y sir.

It was announced at the latest PACT meeting that a meeting to discuss plans of developing the CCTV system in the county will be held in Aberystwyth at the end of March.

Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion

Review of the Electoral Arrangements for the County of Ceredigion

Llythyr oddi wrth Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Sylwadau i'w dychwelyd erbyn 19 Ebrill. Wedi'r dyddiad hwn bydd y Comisiwn yn paratoi Cynigion Drafft ar gyfer trefniadau etholiadol Sir Ceredigion.

Mae adolygiad y cyngor sir yn awgrymu asesu'r posibilid o uno pentrefi'r Ferwig, Gwbert a Mwnt, sydd ar hyn o bryd o fewn ward Penparc, gyda thref Aberteifi, er mwyn rhannu nifer yr etholwyr o fewn y wardiau'n fwy cyfartal. Awgrymwyd gan y Comisiwn bod angen lleihau nifer cyngorwyr Cyngor Sir Ceredigion o 42 i 38 neu 39. Tan yr awgrym, bydd nifer cyngorwyr Aberteifi ar y cyngor sir yn aros yn dri. Gwyntyllwyd yr amheuan gan gynghorwyr y bydd uno wardiau trefol a gwledig yn gymhlethdod gweinyddol.

Letter from the Local Democracy and Boundary Commission for Wales. Observations to be returned to the Commission by 19 April. After this date the Commission will prepare Draft Proposals for the electoral arrangements for the County of Ceredigion.

The review by the county council recommends assessing the possibility of joining the hamlets of Ferwig, Gwbart and Mwnt, which are currently within the Penparc ward, with the wards of Cardigan town, in order to balance the number of electors in each ward. The Commission has recommended that the number of councilors serving on Ceredigion County Council be reduced from 42 to 38 or 39. With the aforementioned recommendation, the number of county councillors in Cardigan would remain at three. It was stressed that merging rural and urban wards would complicate the administrative responsibilities.

Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field:

- (a) **Mae dyddiadau wedi eu cynnig i ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol ac i'r Clwb Pêl-droed er mwyn trafod y mater. Disgwylir ymateb oddi wrth yr ysgrifennydd.**

Dates have been offered to the secretary of the Advisory Committee and the Football Club to further discuss the issue. A response is awaited from the secretary.

- (b) **W. J. Williams & Davies: Prydlesau Clwb Bowls Aberteifi a Chlwb Rygbi Aberteifi.**

Cardigan Bowling Club and Cardigan Rugby Club leases.

Awgrymwyd bod angen i brydles y Clwb Bowlio ddangos yn glir mai cyngor y dref sydd yn gyfrifol am y tir yn unig, a bod y Clwb Bowlio yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau ac am y cyfrifoldeb annhebygol o'u symud o'r safle.

Prydles y Clwb Rygbi: Cytunodd y Cyng. Davies drafod diweddariad y brydles gyda chyfreithiwr y Clwb Rygbi.

It was recommended that the Bowling Club lease needs to reflect that the town council is responsible for the ownership of the land only, and the Bowling Club for the buildings and their maintenance and the unlikely event of their disposal.

Rugby Club lease: Cllr Clive Davies agreed to obtain an update of the lease from the Club's solicitor.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- (a) **Goleuadau Digwyddiadau / Event Lights.**

Gwyntyllodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Richard Jones, ei awgrymiadau am osod goleuadau ar y strydoedd yn croesawu pobl i'r dref. Mae hefyd wedi cysylltu â chwmni J. Harries (trydanwyr) yn y dref ynglŷn â gosod unedau o geblau newydd yn ôl £150 yr un (26 mewn nifer).

Awgrymwyd bod baneri'r cyngor yn cael eu gosod mewn pryd i groesawu Gŵyl Fawr Aberteifi i'w chartref newydd yn Theatr Mwldan ym mis Gorffennaf. Cytunodd y Cyng. Brabrook gysylltu â Commercial Christmas ynglŷn â thynnu'r goleuadau Nadolig i lawr.

The Deputy Mayor, Cllr Richard Jones, suggested that new illuminated lights with the word "Croeso" be displayed on the streets. He has also discussed replacing the cables with 26 units at a cost of £150 each. It was recommended that the bunting be flown to welcome Gŵyl Fawr Aberteifi to Theatr Mwldan for the annual event in July. Cllr Brabrook agreed to contact Commercial Christmas regarding the removal of the Christmas lights.

- (b) **Tesco (Bags of Help grant)**

Gwyntyllodd y Maer gynllun diweddaraf Tesco sydd ar gael i elusennau a sefydliadau cymunedol yn cynnwys clybiau, cymdeithasau, eglwysi, cynghorau, ayyb. Bydd cwsmeriaid yn pleidleisio ar dri prosiect cymunedol gyda chanllawiau yn newid bob yn ail fis. Yn dilyn y bleidlais, bydd y cynllun sydd yn derbyn y mwyafrif o bleidleisiau yn cael grant hyd at £4,000, yr ail yn derbyn hyd at £2,000, a'r trydydd hyd at £1,000.

The Mayor highlighted the Tesco project "Apply for a Bags of Help grant" which is available to charities and community organisations including local clubs, associations, churches, councils, etc. Three community projects will be voted on by customers in Tesco stores with projects changing every other month. Following the vote, the project receiving the most votes in its area will receive a grant of up to £4,000, second place receiving up to £2,000 and third place up to £1,000.

- (c) **Cwprdd y cyngor sydd wedi ei leoli yn Ystafell Radley. Mae angen cywiro'r clo.**

Awgrymwyd bod y cyngor yn gofyn i grefftwr lleol i gywiro'r clo.

The council cupboard in Ystafell Radley. The lock is in need of repair. It was recommended that the council requests a local craftsman to repair the lock.

Er gwybodaeth / For information

Nos Wener, 24 Mawrth—Dawns Conga yn dechrau o flaen Neuadd y Dref am 5.30yh.

Friday, 24 March—Conga Dance to proceed from the Guildhall at 5.30pm.

Dydd Sadwrn, 1 Ebrill—Bore Coffi (Cronfa'r Maer), Neuadd y Dref, 9.00-12.00.

Mae croeso i'r aelodau gyfrannu gwobrau i'r raffl.

Saturday, 1 April—Coffee Morning (Mayor's Fund), Guildhall, 9.00-12.00 noon. Members are invited to donate raffle prizes.

Dydd Sadwrn, 29 Ebrill—Dydd Sadwrn Barlys.

Saturday, 29 April—Barley Saturday Show.

Dydd Iau, 4 Mai—Etholiadau Cyngor Sir a Chymuned.

Thursday, 4 May—County Council and Community Elections.

Nos Fawrth, 23 Mai—Seremoni Sefydlu'r Maer: Neuadd y Dref am 7.00 o'r gloch.

Tuesday, 23 May—Mayor's Installation Ceremony at the Guildhall at 7.00pm.